## Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

### Gwybodaeth Ychwanegol at OAQ0648(FM) a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ar ran Rhodri Morgan, y Prif Weinidog

**At Ann Jones:**

Cytunodd y Prif Weinidog, yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 28 Mehefin, i ysgrifennu atoch ynglŷn ag amddiffyn gweithwyr gwasanaethau argyfwng, yn enwedig dynion tân, rhag ymosodiadau.

Caiff ymosodiadau ar ddynion tân a gweithwyr gwasanaethau argyfwng eraill eu categoreiddio fel troseddau ac maent felly'n faterion heddlu. Nid yw'r swyddogaethau hyn wedi'u datganoli ac arhosant gyda'r Swyddfa Gartref. Mae'r gwasanaethau tân ac achub yn gweithio'n agos gyda'u cydweithwyr yn yr heddlu ac asiantaethau eraill i fynd i'r afael â'r broblem hon ar lefel leol pan fo hyn wedi codi, ac mae'r dull hwn wedi bod yn llwyddiannus. Fodd bynnag, yr wyf yn cydnabod bod llawer mwy o waith i'w wneud, ac mae angen inni sicrhau y rhoddir gwybod am yr ymosodiadau hyn a bod yr wybodaeth yn gyson ledled Cymru.

Yn y cyfamser, codwyd ymosodiadau ar ddynion tân yng nghyfarfod agoriadol y grŵp cydlynu y gwasanaeth tân ac achub (awdurdodau tân ac achub a Llywodraeth y Cynulliad) a gynhaliwyd ar 29 Mehefin, ac yn y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ar 6 Gorffennaf.

Mae Alan Williams AS hefyd yn ddiweddar wedi cyflwyno Bil Aelod preifat sy'n galw am greu tramgwydd troseddol mewn perthynas ag ymosodiadau ar weithwyr achosion argyfwng. Mae'r Bil hwn yn galw am bwerau sy'n debyg i'r rheini yn Emergency Workers (Scotland) Act 2005, a ddaeth i rym ym mis Mai eleni. Bydd swyddogion yn monitro taith y Bil ac effaith Deddf yr Alban dros y misoedd nesaf.

### Gwybodaeth ychwanegol o ran dirprwyo swyddogaethau o dan Reoliadau Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2005 i'r Prif Weinidog a gyhoeddwyd gan Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

**At Mick Bates:**

Yn ystod ystyriaeth y Cyfarfod Llawn o'r cynnig i ddirprwyo'r swyddogaethau yn y Rheoliadau Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2005, cytunais i roi manylion i chi am y rheoliadau a fyddai'n trosglwyddo i'r Prif Weinidog. Yr wyf yn gresynu na ddigwyddodd hyn ar y pryd oherwydd diofalwch gweinyddol. Felly, amgaeaf dabl yn awr, sy'n crynhoi'r swyddogaethau perthnasol.

| Rheoliad | Darpariaeth |
|---|---|
| **Rheoliad 11** | Lle mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi darparu ar gyfer eithrio gosodiad dros dro, gall ei weithredwr wneud cais i'r awdurdod cyfrifol – a all fod, mewn amgylchiadau penodol, y Cynulliad – am dystysgrif sy'n nodi hyn. |
| **Rheoliad 16** | Yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheolydd roi hysbysiad i'r awdurdod priodol o ildio trwydded allyriadau nwyon tŷ gwydr. |
| **Rheoliad 17** | Yr awdurdod priodol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r rheolydd roi hysbysiad am ddirymu trwydded allyriadau nwyon tŷ gwydr. |

| | |
|---|---|
| **Rheoliad 20** | Cytuno i gynllun dyrannu cenedlaethol a'i gyhoeddi. |
| **Rheoliad 21** | Darparu gwybodaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol i'r Cynulliad o ran dyrannu a chyflwyno lwfansau. |
| **Rheoliad 25** | Gall penderfyniadau atodol gan y rheolydd neu'r Ysgrifennydd Gwladol drefnu i'r awdurdod priodol roi cyfarwyddiadau i'r rheoleiddiwr. |
| **Rheoliad 27** | Yr awdurdod priodol ar gyfer awdurdodi trefniadau cronni, drwy'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Comisiwn Ewropeaidd. |
| **Rheoliadau 32-34 ac Atodlenni 2 a 3** | Gwneud penderfyniadau ar apeliadau. |
| **Rheoliad 35** | Yr awdurdod priodol ar gyfer ei gwneud yn ofynnol i'r rheolydd ddarparu gwybodaeth ynglŷn â chyflawni ei swyddogaethau. |
| **Rheoliad 37** | Darparu gwybodaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol o ran peidio â chyhoeddi gwybodaeth o dan reoliad 20 ar sail diogelwch cenedlaethol. |
| **Rheoliad 41** | Yr awdurdod priodol i gael gwybod am gosbau sifil a asesir gan y rheolydd, a throsglwyddo unrhyw gosbau sifil i'r awdurdod priodol. |
| **Rheoliad 42** | Cyfarwyddiadau i'r rheolydd. |
| **Rheoliad 43** | Canllawiau ar gyfer y rheolydd. |
| **Rheoliad 46** | Gofyniad i'r Cynulliad gytuno i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer pwerau o ran gosodiadau yng Nghymru. |